

Ymgynghoriad ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau

Adroddiad cyntaf yr ymgynghoriad

1. Dyma'r cyntaf o ddau adroddiad yn dadansoddi'r ymatebion i'n hymgyngoriad ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar faterion yn ymwneud â safon¹ y safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, o ran gofal â phobl yn ganolog iddo, ac effaith bosibl y newid hwnnw ar weithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr a defnyddwyr gwasanaethau fferyllol. Bydd ail adroddiad yn dilyn, a fydd yn cynnwys dadansoddiad manylach ar y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r canllawiau ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau mewn ymarfer fferyllol.

Cefndir polisi

2. Rhwng Ebrill a Mehefin 2016, cynhaliom ymgynghoriad ar safonau newydd arfaethedig ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, y mae disgwyl iddynt ddod i rym yn nes ymlaen eleni. Mae'r naw safon, sydd ar waith ar gyfer pob gweithiwr fferyllol proffesiynol, yn disgrifio sut y darperir gofal diogel ac effeithiol drwy broffesiynoldeb â phobl yn ganolog iddo.
3. Mae Safon 1 yn nodi bod yn rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu gofal sydd â phobl yn ganolog iddo. O ran crefydd, gwerthoedd personol a chredoau, roedd yr enghreifftiau ynghylch sut i ddefnyddio'r safon hon yn ymarferol yn cynnwys gofyniad bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn dweud wrth eu cyflogwyr neu eraill os oeddent o'r farn bod eu gwerthoedd neu gredoau yn eu rhwystro rhag darparu gofal, ac y dylent gyfeirio pobl at ddarparwyr gwasanaethau fferyllol eraill. Dywedodd llawer o ymatebwyr na ddylai gweithwyr fferyllol proffesiynol allu gwrthod darparu gwasanaethau ar sail eu credoau personol, gan ddadlau y byddai hynny'n groes i'r egwyddor o ofal â phobl yn ganolog iddo.
4. Cafodd y safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol eu cymeradwyo ym mis Hydref 2016, yn amodol ar ymgynghoriad pellach ar newidiadau i'r enghreifftiau'n ymwneud â chrefydd, gwerthoedd personol a chredoau dan safon 1. Byddai'r newidiadau hyn yn golygu bod gan weithwyr fferyllol proffesiynol gyfrifoldeb i sicrhau na chyfaddawdir gofal â phobl yn ganolog iddo gan grefydd, gwerthoedd personol a chredoau. Credwn fod hyn yn gydnaws â'n polisi gofal â phobl yn ganolog iddo, a'i fod yn adlewyrchu deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol yn well.
5. Os cânt eu cymeradwyo, bydd y cynigion yn newid y disgwyliadau sydd ar weithwyr fferyllol proffesiynol pan allai eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau ac yn symud y pwyslais tuag at fudd a hawliau'r bobl yn eu gofal. Gallai cyfeirio person at ddarparwr arall fod yn briodol, weithiau, ond bydd yn dibynnu ar natur yr atgyfeiriad a sut y mae'n cael ei wneud. Bydd yn rhaid i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol dderbyn cyfrifoldeb dros barhad a/neu ganlyniad gofal y person.
6. Ochr yn ochr â'r newid hwn yn y safonau, ymgynghorom hefyd ar ganllawiau cefnogol newydd. Nod y rhain yw helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i ddefnyddio'r safon yn ymarferol ac adlewyrchu ystod eang y sefyllfaoedd lle gallai crefydd, gwerthoedd personol a chredoau gweithwyr fferyllol effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau.

Ynghylch yr ymgynghoriad

7. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am ddeuddeg wythnos, gan ddechrau ar 13 Rhagfyr 2016 a dod i ben ar 7 Mawrth 2017. Er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan gynifer â phosibl o unigolion a sefydliadau:
 - Roedd arolwg ar-lein ar gael y gallai unigolion a sefydliadau ei gwblhau yn ystod y cyfnod ymgynghori, a derbynion hefyd nifer fechan o ymatebion drwy'r post ac mewn e-byst.
 - Trefnom gyfres o ddigwyddiadau ar gyfer gweithwyr fferyllol, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol a phobl eraill â diddordeb.
 - Cynigiom hefyd gyfarfodydd un wrth un gydag ystod eang o sefydliadau a allai fod â diddordeb ym maes yr ymgynghoriad, y cytunodd y rhan fwyaf ohonynt i gwrdd â ni ac yna gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad.
 - Cynhyrchom hefyd becyn o adnoddau y gallai sefydliadau ei ddefnyddio i ledaenu gwybodaeth am yr ymgynghoriad ymhlith eu haelodau, gan gynnwys datganiad i'r wasg a chyflwyniad.
 - Gwnaed gwaith hyrwyddo ymhlith ein haelodau drwy'r cyhoeddiad ar-lein Regulate a hyrwyddwyd yr ymgynghoriad hefyd ar y cyfryngau cenedlaethol a'r cyfryngau masnach.

Arolwg ar-lein

8. Gofynnodd yr arolwg ar-lein gwestiynau ynghylch:
 - y newid oedd yn cael ei gynnig i'r safon
 - defnydd ymarferol ar y canllawiau diwygiedig ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau
 - effaith y newidiadau hyn ar weithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr a defnyddwyr gwasanaethau fferyllol.
9. Casglom hefyd wybodaeth ynghylch pam roedd ymatebwyr yn ymateb a'u nodweddion gwarchoddedig.
10. Erbyn i'r ymgynghoriad gau, roedd 3,450 o ymatebion ar-lein gan unigolion ac aelodau o'r cyhoedd wedi eu derbyn. Yn ogystal â'r rhain, derbynion 151 o ymatebion drwy'r post neu mewn e-byst gan unigolion a sefydliadau, rai ohonynt yn defnyddio'r ddogfen ymgynghori, a rhai yn ysgrifennu'n fwy cyffredinol ynghylch eu barn.

Digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid

11. Defnyddiwyd cwestiynau'r arolwg ar-lein hefyd yn strwythur ar gyfer trafodaethau yn ein digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid:
 - Cynhaliom grwpiau ffocws ar gyfer y sector yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a chyfarfod o amgylch bwrdd yn Llundain, gan ddenu cyfuniad o fferyllwyr, technegwyr fferyllol, pobl oedd yn gweithio mewn addysg a hyfforddiant, cyflogwyr, fferyllwyr cyn-gofrestru a chynrychiolwyr cyrff proffesiynol a chyrrff masnach
 - Trefnom dri grŵp ffocws ar gyfer grwpiau cleifion yng Nghymru, yr Alban a Lloegr
 - Cawsom drafodaeth hefyd gyda grŵp pobl hŷn a chwrdd â hyfforddeion ac aseswyr yng Ngholeg Preston.

12. Defnyddiwyd y cwestiynau o'r arolwg ar-lein hefyd yn sail i'n trafodaethau yn ein digwyddiadau rhanddeiliaid, gan ganiatáu i ni glywed barn pobl, a'u cynnwys yn ein dadansoddiad ar yr ymgynghoriad. Defnyddiodd y digwyddiadau hyn hefyd astudiaethau achos i hybu trafod ynghylch defnyddio'r safonau a'r canllawiau yn ymarferol.
13. Daeth rhyw 200 o unigolion a chynrychiolwyr sefydliadau i'r digwyddiadau hyn.

Cyfarfodydd un wrth un

14. Gwahoddom ystod o sefydliadau a allai fod â diddordeb yn yr ymgynghoriad i siarad yn uniongyrchol â ni, er mwyn i ni glywed eu barn am y cynigion, ac i drafod yn fanwl yr effaith ar weithwyr fferyllol, cyflogwyr a'r cyhoedd.
15. Fel yn y digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid, gwnaed nodiadau yn y cyfarfodydd hyn er mwyn eu cynnwys yn y dadansoddiad. Cyflwynodd nifer o'r sefydliadau hyn hefyd ymatebion drwy'r post neu gwblhau'r arolwg ar-lein.
16. Cynhaliom gyfarfodydd un wrth un gyda 29 o sefydliadau yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad.

Sylw yn y wasg a'r cyfryngau

17. Defnyddiwyd datganiadau i'r wasg a gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r ymgynghoriad, ac o ganlyniad cafwyd cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau yn ystod yr ymgynghoriad.
18. Cyfyng oedd y sylw ym mis Rhagfyr, gyda'r cyhoeddiadau fferyllol P3 a'r Pharmaceutical Journal yn rhoi sylw i lansiad yr ymgynghoriad, a chynnwys sylwadau gan y Grwpiau Cristnogion mewn Fferylliaeth a Chymdeithas y Meddygon Mwslimaidd.
19. Cafwyd rhagor o sylw yn y Pharmaceutical Journal a C+D yn Ionawr a Chwefror, yn ymateb i sylwadau gan y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol a'r Sefydliad Cristnogol ymhlith eraill.
20. Tua chanol mis Chwefror, dechreuwyd rhoi sylw i'r ymgynghoriad y tu allan i'r wasg fferyllol, gyda phostiau blog ar wefanau Conservative Home, Anglican Mainstream a'r Christian Medical Fellowship, erthygl a fideo gan y Sefydliad Cristnogol, a datganiad arall i'r wasg gan y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol. Cyhoeddwyd erthygl yn The Tablet, un o bapurau newydd Catholig mwyaf blaenllaw'r DU, ac roedd sylw hefyd ar ddwy wefan Americanaidd, Life News a National Right to Life News Today. Wrth i'r ymgynghoriad dynnu tua'i derfyn cyhoeddwyd erthygl yn y Catholic Herald.

Deiseb

21. Ar 1 Mawrth, lansiwyd deiseb yn erbyn y newidiadau oedd yn cael eu cynnig ar wefan CitizenGO, gwefan ymgyrchu sy'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â hawl byw a rhyddid crefyddol. Arwyddodd 7,782 o unigolion y deiseb.

Ein dull dadansoddi ac adrodd cyffredinol

22. Rydym wedi ystyried pob ymateb a ddaeth i law, yn ogystal â'r nodiadau o'r digwyddiadau rhanddeiliaid a'r cyfarfodydd un wrth un. Ystyriwyd pob ymateb wrth ddatblygu ein dadansoddiad ansoddol ar y themâu a gododd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae ein dull thematig yn caniatáu i ni gynrychioli'r ystod eang o safbwyntiau a gyflwynwyd, boed i'r sylwadau ein cyrraedd gan unigolion neu sefydliadau, mewn ysgrifen, neu ar lafar mewn cyfarfodydd a digwyddiadau. Rydym wedi ymdrin â deiseb CitizenGO fel ymateb gan sefydliad.
23. Yn sgil yr amrywiaeth o ddulliau oedd ar gael i ymateb i'r ymgynghoriad, roedd rhywfaint o ddyblygu'n annatod. Mae rhai sefydliadau, er enghraifft, wedi cwrdd â ni mewn cyfarfodydd un wrth un ac wedi cyflwyno ymatebion ar-lein a thrwy'r post, yn ogystal â chymell unigolion i ymateb. Er mwyn sicrhau tegwch, rydym wedi ymdrin â phob ymateb yn yr un ffordd, gan ganolbwyntio ar y materion a godwyd ynddynt.
24. Mae ein dadansoddiad ansoddol yn adran A yr adroddiad hwn, yn dechrau ar dudalen 5.
25. Mae ein dadansoddiad meintiol ar yr ymatebon ar-lein yn adran B, yn dechrau ar dudalen 11.
26. Er mwyn bod yn dryloyw, rydym wedi cynnwys rhestr lawn o'r sefydliadau a fu'n rhan o'r ymgynghoriad ar ddiwedd yr adroddiad hwn, yn adran C, ar dudalen 21.

A: Dadansoddiad ansoddol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

27. Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad ansoddol o'r ymatebion gan unigolion a sefydliadau, gan gynnwys ymatebion ar-lein gan unigolion a sefydliadau, yn ogystal ag ymatebion ddaeth gan y grwpiau hyn drwy'r post, nodiadau o ddigwyddiadau ymglymu, a nodiadau o gyfarfodydd un wrth un. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r dadansoddiad meintiol o'r ymgynghoriad.
28. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n arbennig ar y cwestiynau ynghylch effaith y newidiadau arfaethedig ar grwpiau gwahanol. Bydd ail adroddiad ar gael, yn canolbwyntio ar y cwestiynau ynghylch y canllawiau cefnogol sydd â'r nod o helpu aelodau i gyrraedd y safon.
29. Roedd yr arolwg 'hunanddewis' yn rhan bwysig o'r ymgynghoriad; gallai unrhyw un â diddordeb yn yr ymgynghoriad ymateb. Fel gyda phob ymgynghoriad, rydym yn derbyn bod unigolion neu grwpiau sy'n eu hystyried eu hunain yn arbennig o debygol o gael eu heffeithio arnynt gan y cynigion, neu sydd â barn gref iawn ar y mater, yn fwy tebygol o fod wedi ymateb. Ni ellir ystyried yr ymatebion yn gwbl gynrychioladol o boblogaeth ehangach, felly, fel y gallai sampl tebygolrwydd fod. Hyd yn oed pan rennir ein dadansoddiad yn is-grwpiau, nid yw'r safbwyntiau a fynegir o anghenraid yn gynrychioladol o grwpiau mwy, megis aelodau'r cyhoedd neu weithwyr fferyllol proffesiynol. I'n helpu i ddeall natur y rhai a ymatebodd, rydym hefyd felly wedi dadansoddi peth o'r data ar nodweddion gwarchoddedig a gasglwyd yn rhan o'r ymgynghoriad. Mae'r canfyddiadau yn adran B, ac maent yn taflu goleuni ar ein dadansoddiad ansoddol.

Ein dull dadansoddi ansoddol

30. Datblygwyd fframwaith codio i nodi gwahanol faterion a phynciau oedd yn dod i'r amlwg yn yr ymatebion, i nodi patrymau a chysondeb syniadau, ac i roi strwythur i'n dadansoddiad. Adeiladwyd y fframwaith o'r gwaelod, drwy broses iteradd o nodi'r hyn oedd yn dod i'r amlwg o'r data, yn hytrach na thaflunio fframwaith a gynlluniwyd o flaen llaw ar y data.
31. Defnyddiwyd y fframwaith codio hwn i ddadansoddi'r cwestiynau agored. Roedd natur ansoddol yr ymatebion hyn yn golygu bod amrywiaeth barn a gwahanol resymau dros y gwahanol farnau. Cafodd yr ymatebion eu hystyried a'u codio'n ofalus drwy'r broses ddadansoddi iteradd. Defnyddiwyd y fframwaith codio i ddadansoddi ymatebion i'r arolwg ffurfiol yn arolwg yr ymgynghoriad a'r nodiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau, a'r ymatebon eraill a ddaeth i law.
32. Mae ein dadansoddiad meintiol yn adran B yn canolbwyntio'n unig ar ymatebion gan unigolion; byddai cyfuno ymatebion gan unigolion a sefydliadau (a allai gynrychioli niferoedd uchel o unigolion) yn creu pwysoliad anghywir. Yn adran hon yr adroddiad, fodd bynnag, pan fo'r ffocws ar themâu a materion a gododd o'r ymatebion, rydym wedi ystyried safbwyntiau unigolion a sefydliadau ochr yn ochr. Wrth adrodd, rydym wedi gwahaniaethu rhwng ymatebion gan unigolion a sefydliadau, pan fo'n bwysig gwneud hynny.

33. Er bod y dadansoddiad meintiol yn helpu i ddeall yr ymatebion unigol yn gyffredinol, mae angen darllen y dadansoddiad hwn ochr yn ochr ag ef, er mwyn cael dealltwriaeth lawnach a chyfoethocach. Mae cyfuno'r dadansoddiad ansoddol a'r dadansoddiad meintiol yn caniatáu i ni ddeall materion yn ymwneud ag effaith y cynigion yn fwy holistig.

Yr hyn a glywom: barn ar y cynnig yn gyffredinol

34. Cafwyd mwy o ymateb gan aelodau'r cyhoedd i'r ymgynghoriad hwn nag i ymgynghoriadau eraill y CFFC. Daw mwyafrif helaeth yr ymatebion gan unigolion sy'n weithwyr fferyllol fel arfer, ond y tro hwn roedd mwy o ymateb gan aelodau o'r cyhoedd.
35. Roedd y sefydliadau a ymatebodd hefyd yn fwy amrywiol nag arfer: clywom gan nifer o sefydliadau'n cynrychioli grwpiau ffydd gwahanol neu safbwyntiau seciwlar, yn ogystal â sefydliadau'n cynrychioli cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn gyffredinol a phobl â nodweddion gwarchodedig penodol. Clywom hefyd gan nifer o sefydliadau'n cynrychioli pob rhan o'r sector fferyllol. Mae rhestr o sefydliadau fu'n ymwneud â'r ymgynghoriad yn adran C.
36. Roedd rhan gyntaf yr ymgynghoriad yn mesur i ba raddau roedd ymatebwyr yn cefnogi dull newydd y CFFC, ac yn gofyn eu barn ar y cynnig. Yn gyffredinol, roedd gweithwyr fferyllol yn fwy tueddol o gytuno gyda'r cynnig nag oedd aelodau'r cyhoedd. Roedd gwahaniaeth amlwg rhwng barn gyffredinol y gwahanol grwpiau o ymatebwyr: roedd y dull arfaethedig yn cael ei gefnogi gan y rhan fwyaf o'r gweithwyr fferyllol a fynegodd farn, tra bo'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr oedd yn eu galw'u hunain yn aelodau o'r cyhoedd yn dueddol o wrthwynebu.
37. Roedd dadansoddi'r cwestiynau agored yn rhoi cyfle i bobl egluro eu barn yn fwy manwl. Er bod patrymau clir o fewn yr ymatebion, mae hefyd angen cydnabod bod ystod eang o resymau wedi eu nodi dros gytuno neu wrthwynebu'r dull arfaethedig. Mae'r adran hon yn crynhoi'r gwahanol safbwyntiau a roddwyd.
38. Roedd llawer o ymatebwyr, yn unigolion ac yn sefydliadau, yn ystyried y cynllun yn gam pellach yn y gwaith o gryfhau gofal fferyllol â phobl yn ganolog iddo, ac yn cydnabod yr effaith gadarnhaol fyddai hyn yn ei chael ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr drwy roi mynediad mwy cyson iddynt i wasanaethau. Cyfeiriwyd yn eu hymatebion at ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys hormonau atal cenhedlu brys. Yn groes i hyn, roedd cyfran fawr o aelodau'r cyhoedd yn canolbwyntio ar yr atal cenhedlu hwnnw yn unig, gan nodi hyn yn broblematig yng nghyd-destun y newid oedd yn cael ei gynnig.
39. Yn ein grwpiau ffocws gydag aelodau o'r cyhoedd, ar y llaw arall, roedd y mwyafrif llethol yn cytuno gyda'r dull oedd yn cael ei gynnig. Roedd llawer o gyfranogwyr yn credu bod yr enghraifft ddiwygiedig dan safon 1 yn glir ac yn adlewyrchu'r hyn oedd yn ddisgwyliedig gan y cyhoedd wrth weithwyr fferyllol. Roedd llawer hefyd yn teimlo bod y dull yn adlewyrchu gofal â phobl yn ganolog iddo yn well, ac y byddai'n helpu i hybu gwasanaethau mwy cyson nad oedd yn barnu neb. Nododd eraill bod y dull diwygiedig yn adlewyrchu'r hyn roedden nhw'n ei ddisgwyl gan weithwyr fferyllol proffesiynol yn barod.
40. Roedd patrwm cymhleth tebyg ymhlith yr ymatebion gan sefydliadau. Roedd sefydliadau'n cynrychioli'r sector fferyllol yn dueddol o gytuno gyda'r cynnig, gyda sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gynrychioli grwpiau penodol yn cyflwyno barn fwy pegynol.
41. Roedd gwahaniaethau ymhlith cyfranogwyr ein digwyddiadau o ran sut roedden nhw'n dehongli'r enghraifft ddiwygiedig, yn benodol ynghylch priodoldeb atgyfeirio at ddarparwr gwasanaethau arall, ac a oedd hyn yn dal yn opsiwn, gan ei fod wedi ei ddileu o'r enghraifft dan y safon. Tra bo llawer o ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo bod y safon a'r canllawiau'n glir, roedd rhai hefyd yn poeni bod y geiriad yn amwys ac yn rhy agored i gael eu dehongli. Yn wir roedd rhai, o blaid ac yn erbyn y cynnig yn gyffredinol, yn teimlo

nad oedd atgyfeirio'n cael ei ganiatáu dan y safon a bod gorfodaeth ar weithwyr fferyllol i ddarparu unrhyw wasanaethau, hyd yn oed rhai oedd yn groes i'w cydwybod.

42. Roedd rhai o'r rhai a ddaeth i'n digwyddiadau yn teimlo bod llawer o ffyrdd i weithwyr fferyllol proffesiynol ddangos eu bod yn derbyn cyfrifoldeb dros sicrhau na chyfaddawdir gofal, gan gynnwys cyfeirio at ddarparwyr eraill pan yn briodol. Roedd eraill, fodd bynnag, yn dehongli'r enghraifft i olygu y byddai'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol wastad ddarparu gwasanaethau y gallent fod yn eu gwrthwynebu ar sail eu crefydd, gwerthoedd personol neu gredoau, os yw'r gwasanaethau yn gyfreithlon ac yn ddiogel ar gyfer y person.

Rhesymau dros gefnogi'r cynigion

43. O blith yr unigolion a ymatebodd, nododd llawer yn syml mai anghenion y defnyddwyr ddylai ddod yn gyntaf bob amser, ac na ddylai gweithwyr fferyllol proffesiynol orfodi eu gwerthoedd personol neu gredoau ar bobl oedd yn defnyddio'u gwasanaethau. Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r cynigion am eu bod yn pwysleisio'r rôl actif ddylai fod gan weithwyr fferyllol i sicrhau cysondeb gofal, gyda llawer yn nodi ei bod hi'n "hen bryd" cyflwyno'r newid hwn.
44. Roedd rhai'n teimlo nad oed y cynnig yn mynd yn ddigon pell ac na ddylai gweithwyr proffesiynol byth wrthod gwasanaeth ar sail credoau personol a chrefyddol, yn enwedig pan oedd y gwasanaethau'n rhan o ddarpariaeth y GIG. Pwysleisiwyd y dylai fod gan gleifion hawl i unrhyw wasanaeth cyfreithiol oedd yn glinigol briodol.
45. Yn gyffredinol, roedd llawer o'r rhai oedd yn cefnogi'r newid yn ei ystyried yn ddull oedd yn cryfhau'r trefniadau presennol ac yn rhoi mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau'r gweithwyr fferyllol. Roedden nhw hefyd yn ei ystyried yn gam cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, fyddai'n cael budd o ofal o ansawdd well nad oedd yn eu barnu, a mynediad iddo yn fwy cyson.
46. Roedd yna hefyd bobl, a nododd fod ganddynt gredoau crefyddol yn eu hymatebion agored yn cefnogi'r cynnig, yn nodi mai anghenion y person sydd ag angen gofal ddylai fod yn brif ffocws i weithwyr iechyd proffesiynol. Nododd eraill bod credoau crefyddol yn aml yn bwysig i lywio moeseg broffesiynol gweithwyr ac nad oes angen gwahanu'r ddau beth, gyhyd ag nad yw gwerthoedd a chredoau personol yn cael eu gorfodi ar y sawl sy'n derbyn gofal.
47. Nododd rhai gweithwyr proffesiynol y gall gwerthoedd personol a chredoau gael effaith gadarnhaol ar ymarfer a gofal, a'u bod yn teimlo bod tôn y ddogfen ymgynghori yn creu problem o grefydd heb angen. Dywedwyd y gallai'r tôn fod yn fwy cytbwys a dylid cydnabod yr effaith gadarnhaol y gall gwerthoedd personol a chredoau ei chael ar ofal iechyd.
48. Yn gyffredinol, y sefydliadau oedd yn cefnogi'r cynigion oedd: sefydliadau fferyllol, sefydliadau penodol seciwlar, a sefydliadau oedd yn cynrychioli gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd, ynghyd â rhai sefydliadau ffydd. Yn eu hymatebion, dywedodd llawer eu bod yn cydnabod yr anawsterau yn y maes hwn a chodwyd pwyntiau pwysig ganddynt i'w trafod ymhellach. Bydd y pwyntiau hyn yn cael eu trafod yn llawnach wrth gynhyrchu canllawiau i gefnogi gweithredu'r safon. Ar y cyfan, roedd y sefydliadau hyn yn cefnogi'r ffocws cryfach ar ofal â phobl yn ganolog iddo a'r rôl actif fyddai gan weithwyr proffesiynol yn sicrhau na chyfaddawdir gofal. Ar yr un pryd, roedd cydnabyddiaeth nad yw'n hawdd sicrhau cydbwysedd rhwng hawliau defnyddwyr gwasanaethau ar un llaw a hawliau gweithwyr proffesiynol ar y llall. Gofynnodd llawer o ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch gweithredu'r safonau newydd, er enghraifft yng nghyd-destun cyflogaeth bresennol ac ymhlygiadau addasrwydd ymarfer.

49. Cyfeiriodd unigolion a sefydliadau at gyfraith cyflogaeth a chodi cwestiynau ynghylch sut y byddai'r dull newydd yn rhngweithio â hi. Nododd rhai eu bod yn falch bod y dull newydd yn rhoi pwyslais eto ar bwysigrwydd cydraddoldeb, peidio â chamwahaniaethu, a hawliau dynol wrth weithredu gofal â phobl yn ganolog iddo.

Rhesymau dros wrthwynebu'r cynigion

50. Mae'n bwysig nodi nad oedd wastad berthynas rhwng cytuno â neu wrthwynebu'r cynigion a chredoau crefyddol ai peidio ymatebwyr. Roedd rhai'n ystyried bod y cynnig yn lleihau ymhellach annibyniaeth gweithwyr fferyllol a'u gallu i wneud penderfyniadau, er na fyddent o anghenraid yn defnyddio credoau crefyddol i gyrraedd penderfyniad, ac roeddent yn gwrthwynebu ar y sail hon.
51. Nododd y rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnig na ddylid rhoi gweithwyr fferyllol proffesiynol mewn sefyllfa lle byddai eu gwerthoedd a chredoau personol yn cael eu cyfaddawdu. Roedd llawer o blith y grŵp hwn o ymatebwyr yn ystyried bod y cynnig yn dweud y byddai rhaid i bob gweithiwr fferyllol ddarparu pob gwasanaeth yn bersonol, ac nad oedd cyfeirio pobl at ddarparwyr eraill byth yn opsiwn. Nododd llawer bryder bod y rheoleiddiwr yn gorfodi gweithwyr fferyllol i ddarparu gwasanaethau sydd yn groes i'w gwerthoedd personol a chredoau. Nododd llawer hefyd na ddylai'r rheoleiddiwr na chleifion orfodi eu gwerthoedd nhw ar weithwyr fferyllol proffesiynol. Roedd rhai ymatebwyr am weld cydbwysedd rhwng gwerthoedd a chredoau defnyddwyr gwasanaethau fferyllol a gweithwyr fferyllol proffesiynol, er mwyn sicrhau na fyddai'r naill grŵp na'r llall dan anfantais.
52. Roedd rhai yn teimlo nad oedd hi'n iawn disgwyl i weithwyr ddarparu gwasanaethau oedd yn groes i'w credoau personol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfeirio person at ddarparwr arall neu mewn unrhyw ffordd arall. Mynegwyd pryderon y byddai'r dull newydd yn amharu ar hawliau gweithwyr proffesiynol, gan achosi rhai i adael y proffesiwn, ac y byddai'n fwy tebygol y byddai cyflogwyr yn camwahaniaethu yn erbyn gweithwyr, yn enwedig y rhai â chredoau crefyddol.
53. Roedd rhai hefyd yn poeni y byddai'r dull newydd yn galluogi defnyddwyr i fynnu ar unrhyw wasanaeth y dymument, yn hytrach na bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar sail angen.
54. Roedd llawer o'r farn bod hormonau atal cenhedlu brys yn gyffuriau erthylu ac yn credu felly y byddai eu darparu, neu hyd yn oed gyfeirio pobl at ddarparwr arall, yn gyfystyr â chware rhan mewn erthyliad; roedden nhw'n gwrthwynebu'r cynnig ar y sail hon.
55. Roedd sefydliadau oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn gwneud hynny ar y sail eu bod o'r farn bod y cynnig yn golygu y byddai'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu meddyginiaethau neu wasanaethau hyd yn oed pan fyddai'n groes i'w cydwbybod. Gofynnodd nifer o ymatebwyr a fyddai'r dull newydd yn gydnaws â deddfwriaeth cydraddoldeb, neu a fyddai'n groes i erthygl 9 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r dull newydd o fudd i gyflogwyr ac y byddai'n gallu arwain at gamwahaniaethu yn erbyn cyflogeion.
56. Nodd rhai sefydliadau eu bod yn cefnogi gofal â phobl yn ganolog iddo ond eu bod yn gwrthwynebu'r cynnig. Mynegwyd pryder ganddynt y byddai defnyddwyr gwasanaethau fferyllol yn galluogi defnyddwyr i ddewis pa feddyginiaeth bynnag a ddymument, yn hytrach na'r gweithiwr yn dewis yr hyn fyddai'n briodol.
57. Maes arall oedd yn peri pryder i'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r dull newydd oedd cymorth wrth farw, a rôl gweithwyr fferyllol proffesiynol pe bai'r gyfraith yn newid yn y maes hwn yn y dyfodol.

58. Cafwyd sylwadau hefyd bod tŷn y ddogfen yn creu problem o grefydd, gwerthoedd personol a chredoau, bron fel petai'n dweud nad oedd lle i'r rhain mewn gofal iechyd. Nododd rhai ymatebwyr bod y geiriau "cydwybod" a "gwrthwynebu ar sail cydwybod" ar goll o'r safonau a chanllawiau. Gwnaed nifer o sylwadau ynghylch geiriad safonau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, y teimlai rhai ei fod yn well.

Yr hyn a glywom: effaith y dull newydd ar weithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr a defnyddwyr gwasanaethau fferyllol

59. Roedd ail ran yr arolwg ar-lein yn canolbwyntio ar effaith bosibl y dull newydd ar dri grŵp: gweithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.
60. Unwaith eto, roedd cryn wahaniaeth rhwng barn y gwahanol grwpiau a ymatebodd, gyda gweithwyr fferyllol fel arfer yn teimlo ei bod yn debygol y byddai'r dull yn cael effaith negyddol a chadarnhaol ar y grwpiau gwahanol, a'r rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd yn ystyried mai effaith negyddol oedd fwyaf tebygol.

Effaith ar weithwyr fferyllol proffesiynol

61. Yn y sylwadau ynghylch yr effaith ar weithwyr fferyllol, soniwyd yn aml y gallai rhai gweithwyr fferyllol adael y proffesiwn yn sgil y newidiadau oedd yn cael eu cynnig. Codwyd hyn gan bobl oedd yn cefnogi'r cynnig a'r rhai oedd yn ei wrthwynebu, ac ystyriwyd y mater yn ganlyniad cadarnhaol ac yn ganlyniad negyddol. Codwyd rhai pryderon ynghylch amrywiaeth y gweithlu a sut y gallai wanbau yn sgil y newid.
62. Ond roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai'r dull newydd yn dod ag eglurder yr oedd ei mawr angen: byddai gweithwyr fferyllol yn gwybod yn iawn beth sy'n ddisgwyliedig a byddai darpar fyfyrwyr yn gwybod beth fyddai'n ddisgwyliedig ganddyn nhw wrth ymuno â'r gweithlu.
63. Roedd rhai ymatebwyr, ar y llaw arall, boed yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig, yn teimlo y gallai'r dull newydd gael effaith negyddol ar weithwyr wrth iddyn nhw geisio llywio'u ffordd drwy sefyllfa newydd. Roedd y rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynllun yn teimlo y byddai'n lleihau hawliau'r sawl oedd yn teimlo na allent ddarparu gwasanaethau penodol ar sail eu credoau crefyddol, a'u hawliau fel unigolion. Roedd pryder y byddai hyn yn gallu effeithio ar gyfleoedd gwaith. Ar ben hynny, roedd rhai'n teimlo y byddai'r pwysau i weithredu yn groes i gredoau a gwerthoedd personol unigolion yn gallu arwain at straen a gor-bryder ac y gallai gael effaith andwyol ar iechyd meddwl rhai gweithwyr proffesiynol.
64. Roedd llawer yn teimlo mai cadarnhau arferion presennol yn unig y byddai'r newidiadau, ac na fyddai effaith o gwbl ar ymarfer fferyllol, gan awgrymu y byddai gweithwyr fferyllol proffesiynol yn parhau â'u gwaith heb newid.
65. Roedd grŵp bychan yn gwrthwynebu'r cynigion nid ar sail grefyddol ond am eu bod o'r farn y byddai'r dull newydd yn dileu annibyniaeth broffesiynol a gallu'r gweithiwr fferyllol unigol i ddefnyddio'i grebwyll ei hun.
66. Roed rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r newid fod yn anodd i rai gweithwyr proffesiynol ond y byddai'r newid, ar y cyfan, o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol, y dylai eu gofal fod yn flaenoriaeth uchaf, ac y byddai'r dull newydd yn cryfhau hynny.

Effaith ar gyflogwyr

67. Ar yr ochr gadarnhaol, roedd teimlad y byddai'r cynnig yn dod ag eglurder a gwelliant i ansawdd gofal a gwasanaethau. Byddai darpariaeth yn fwy cyson a llai o risg na fyddai gwasanaethau ar gael.
68. Codwyd cwestiynau ynghylch gweithredu'r dull newydd, ac roedd yn faes yr oedd ymatebwyr yn awyddus i gael rhagor o eglurder yn ei gylch: sut byddai'r cynigion yn cael eu gweithredu'n ymarferol, sut byddai cyflogwyr yn cyd-blethu'r anghenion newydd gyda chyfraith cyflogaeth, sut byddai cyflogwyr yn rheoli'r sefyllfa gyda chyflogeion presennol, ac a fyddai ymhlygiadau addasrwydd ymarfer. Roedd gweithredu'r safon yn faes lle byddai angen canllawiau pellach.
69. Roedd y rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynigion ar sail grefyddol yn teimlo y byddai rhai cyflogwyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt weithredu'n groes i'w gwerthoedd a'u credoau personol.

Effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol

70. Roedd mwyafrif llethol y rhai oedd yn cefnogi cynigion y CFFC yn teimlo y byddai o fudd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol am y byddai'n cadarnhau mai eu hanghenion nhw fyddai'r flaenoriaeth, yn sicrhau na fyddai mynediad i ofal yn cael ei gyfaddawdu ac y byddai gwasanaethau ar gael mewn ffordd fwy cyson. Nododd llawer o ymatebwyr y byddai defnyddwyr gwasanaethau yn gallu gofyn am wasanaethau heb deimlo eu bod yn cael eu barnu, ac y byddent yn gallu cael mynediad i wasanaethau yn amserol, sy'n gallu bod yn hollbwysig ar gyfer gwneud rhai meddyginiaethau'n effeithiol.
71. Daeth barn wahanol iawn i'r amlwg, fodd bynnag, ymhlith ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu'r cynigion. Roedd teimlad yma y byddai ansawdd gwasanaethau a gofal yn dirywio a gweithwyr proffesiynol yn gorfod gweithredu yn groes i'w credoau neu adael y proffesiwn yn gyfan gwbl. Nododd llawer na fyddai defnyddwyr gwasanaethau oedd â chredo grefyddol yn gallu cael cyngor gan weithwyr proffesiynol â chredoau tebyg.
72. Yn ein grwpiau ffocws ar gyfer cleifion, nododd llawer o bobl enghreifftiau o'r mathau o rwystrau y gallai person eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i wasanaethau, a rhoddodd rhai enghreifftiau personol. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y byddai'n bwysig i weithwyr fferyllol proffesiynol ystyried y mathau hyn o faterion neu rwystrau wrth ddarparu gofal â phobl yn ganolog iddo. Nododd y rhan fwyaf bod preifatrwydd a chyfrinachedd yn faterion pwysig, ac roedden nhw'n teimlo y byddai'r dull newydd yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol y byddent yn cael eu trin gydag urddas a pharch.
73. Roedd pobl o'r gwahanol grwpiau hefyd yn cydnabod bod hwn yn faes anodd a dyrys i weithwyr fferyllol. Roedden nhw'n teimlo, fodd bynnag, y gellid rheoli'r anawsterau posibl drwy drafodaethau agored a gonest rhwng gweithwyr fferyllol proffesiynol a'u cyflogwyr er mwyn gosod trefniadau ar waith o flaen llaw.
74. Ymhob grŵp, roedd pobl yn teimlo ei bod yn bwysig bod myfyrwyr, neu bobl sy'n ystyried gyrfa fferyllol, yn cael gwybod am y safonau yn gynnar.

B: Dadansoddiad o'r ymatebion gan unigolion i'r arolwg ar-lein

75. Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion gan unigolion i'r arolwg ar-lein. Daeth 3,450 o ymatebion ar-lein i law erbyn i'r ymgynghoriad gau ar 7 Mawrth 2017. Wrth baratoi'r dadansoddiad, penderfynwyd cynnwys rhai ymatebion, a pheidio â chynnwys rhai, am y rhesymau canlynol:

- Cafodd ymatebion gan sefydliadau eu hystyried ar wahân yn y dadansoddiad ansoddol. Roed hyn er mwyn ystyried barn sefydliadau sy'n gyrrff cynrychioli a phwysoli'r farn yn briodol, o'i chymharu â barn ymatebwyr unigol.
- Cafodd nifer fechan o ymatebwyr (dan 10 mewn nifer) a nododd eu bod yn ymateb ar ran sefydliad eu trin fel ymatebwyr unigol, ac maent wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Roedd hanner y rheiny wedi ymateb yn ddienw, ac eraill wedi nodi eu bod yn rhan o sefydliad oedd hefyd wedi anfon ymateb swyddogol i'r ymgynghoriad drwy'r post.
- Derbyniwyd ychydig yn fwy (dan 40 mewn nifer) o ymatebion lluosog gan yr un unigolion. Nodwyd y rhain drwy baru cyfeiriadau e-bost ac enwau. Yn yr achosion hyn, yr ymateb diweddaraf sydd wedi ei gynnwys yn y dadansoddiad.

76. Mae cyfanswm o 3,361 o ymatebion ar-lein unigol wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

Strwythur yr arolwg

77. Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau meintiol: cwestiynau deuaidd, megis "ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau hyn?"; cwestiynau gyda graddau, megis, "a fydd yr effaith yn..."; a chwestiynau aml-ddewis, megis "ble rydych chi'n byw?" Roedd hefyd nifer o gwestiynau penagored.

78. Mae pob ymateb i'r cwestiynau penagored (gan gynnwys y rhai a gafodd eu cynnwys neu beidio â'u cynnwys yn ôl y drefn a ddisgrifir uchod) wedi cael ei ddarllen, ei ystyried a'i godio wrth baratoi'r dadansoddiad ansoddol yn adran A.

79. Mae'r adran hon yn crynhoi'r ymatebion ar-lein i'r cwestiynau meintiol gan unigolion yn unig.

Y gwahaniaethau rhwng grwpiau

80. Mae'r dadansoddiad hwn yn amlygu gwahaniaethau rhwng dau bâr o is-grwpiau o ymatebwyr: aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr fferyllol proffesiynol; ac ymatebwyr â chredo grefyddol ac ymatebwyr heb gredo grefyddol. Mae'r rhesymau dros gyflwyno canlyniadau'r is-grwpiau hyn wedi eu hegluro isod.
81. Er bod yr is-grwpiau hyn wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, mae'n bwysig nodi na ellir ystyried y canlyniadau hyn yn gynrychioladol o eraill sy'n rhannu'r un nodweddion. Mae gan y bobl sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad gymhelliad cryf i ymateb, ac yn gyffredinol mae'r canlyniadau'n destun rhagfarn hunanddewis. Mae'r is-grwpiau, fodd bynnag, yn dangos bod amrywiaeth barn rhwng ac o fewn pob un o'r grwpiau, ac yn dangos hefyd nad yw pobl sydd â'r un nodweddion, credo grefyddol er enghraifft, o anghenraid yn rhannu'r un safbwyntiau.

Aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr fferyllol proffesiynol

82. Yn wahanol i'r arfer, derbyniwyd nifer fawr o ymatebion gan y cyhoedd (n=1,780), gyda mwy o'r cyhoedd nag o weithwyr fferyllol (n=1,372) yn ymateb. Gan y byddai'r cynigion ar grefydd, gwerthoedd personol a chredo yn effeithio'n wahanol ar y cyhoedd a gweithwyr fferyllol, nodir ymatebion y grwpiau hyn fel is-grwpiau o'r cyfan. Nifer fechan o ymatebion a gafwyd gan grwpiau eraill, megis hyfforddeion cyn-gofrestru, felly nid ydynt yn cael eu nodi ar wahân.

Ymatebwyr â chredo grefyddol ac ymatebwyr heb gredo grefyddol

83. Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i ymatebwyr nodi cyfres o bethau ynghylch eu nodweddion gwarchoddedig, fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Oherwydd bod y cynigion yn berthnasol i grefydd, nodwyd dau is-grŵp arall o ymatebion: y rhai a nododd bod ganddynt gredo grefyddol (n=2,049) a'r rhai heb (n=772).
84. Mae is-grŵp y rhai â chredo grefyddol yn cynnwys rhai a nododd un o'r chwe grŵp crefyddol a nodwyd yn yr arolwg: Bwdhydd, Cristion, Iddew, Mwslim neu Sîc.
85. Mae is-grŵp y rhai heb gredo grefyddol yn cynnwys pawb a ddewisodd Dim.
86. Mae'r rhai a ddewisodd Arall, ac a ddewisodd roi sylw yn y blwch ymateb rhydd, yn syrthio i dri grŵp:
 - Unigolion y gellid dynodi eu hymateb i gategori sydd eisoes yn bodoli, megis Eglwys Loegr, Catholig, neu Bentecostal, wedi eu cynnwys yn rhan o grŵp mwy, megis Cristion, at ddibenion dadansoddi, ac maent wedi eu cynnwys yn is-grŵp yr ymatebwyr â chredo grefyddol.
 - Mae unigolion a nododd eu bod yn aelodau o grwpiau crefyddol nad oedd wedi eu nodi yn yr arolwg, megis Jain neu Bagan, wedi eu cynnwys yn is-grŵp yr ymatebwyr â chredo grefyddol.
 - Mae unigolion a nododd ymlyniad at systemau cred nad ydynt yn rhai crefyddol, megis Anffyddwyr a Dyneiddwyr, wedi eu cynnwys yn y categori Dim ac yn yr is-grŵp o ymatebwyr heb gredo grefyddol.
87. Mae ymatebwyr a ddewisodd Gwell gennyf beidio â dweud neu na wnaeth ateb y cwestiwn wedi eu cyflwyno ar wahân.

Y berthynas rhwng y ddau bâr o is-grwpiau

88. Ymhlith aelodau'r cyhoedd, mae 1,006 (56.5%) wedi eu cynnwys yn is-grŵp y rhai heb gredo grefyddol. Ymhlith gweithwyr fferyllol proffesiynol mae gan (67.3%) gredoau crefyddol ac mae 292 (21.3%) heb gredo grefyddol.

Dadansoddiad manwl

89. Mae'r tablau isod yn cyflwyno'r nifer o ymatebwyr a ddewisodd wahanol atebion ar gyfer cwestiynau'r arolwg ar-lein. Mae'r dadansoddiad yn dilyn yr un drefn â'r arolwg, o ran cyflwyno'r atebion.
90. Oherwydd natur sensitif rhai o'r cwestiynau, mae atebion a ddewiswyd gan lai na 10 o ymatebwyr wedi eu nodi fel <10. O'r herwydd, mae'r tablau'n cael eu cyflwyno heb gyfanswm a chanran, er mwyn sicrhau na ellir adnabod ymatebwyr drwy gyfrifo'r atebion. Nid yw cwestiynau heb eu hateb wedi eu cynnwys. Mae atebion na ddewiswyd gan neb wedi eu nodi gan -.
91. Pan nad oedd gwahaniaethau ystyrion rhwng atebion yr is-grwpiau, nodir hynny yn y naratif cefnogol.

Ynghylch yr ymatebwyr

92. Roedd cyfres o gwestiynau cychwynnol yn gofyn am wybodaeth ynghylch lleoliad cyffredinol unigolion, ac ym mha gapasiti roedden nhw'n ymateb i'r arolwg.
93. Gofynnwyd cwestiynau pellach i weithwyr fferyllol proffesiynol, i nodi a oeddent yn fferyllwyr, yn dechnegwyr fferyllol neu'n berchnogion fferyllfeydd, a ble roedden nhw'n gweithio fel arfer.

Ble rydych chi'n byw?

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Lloegr	2705	1454	1130	1649	630
Yr Alban	321	161	136	209	66
Cymru	163	94	62	99	45
Gogledd Iwerddon	40	19	<10	28	<10
Arall	80	39	30	48	19

Ydych chi'n ymateb fel

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Aelod o'r cyhoedd	1780	1780	-	1006	451
Gweithiwr fferyllol proffesiynol	1372	-	1372	923	292
Hyfforddai cyn-gofrestru	32	-	-	21	<10

Myfyriwr	67
Arall	49
Gweithiwr gofal iechyd arall	55
Myfyriwr arall	<10

-	-
-	-
-	-
-	-

45	<10
20	<10
31	11
<10	<10

Gweithwyr fferyllol proffesiynol: rhan o'r gofrestr

	Pawb
Fferyllydd	1127
Technegydd fferyllol	195
Perchennog fferyllfa	30

Cyhoedd	Fferylliaeth
-	1127
-	195
-	30

Crefydd	Dim
761	226
126	58
20	<10

Gweithwyr fferyllol proffesiynol: man gwaith arferol

	Pawb
Fferyllfa gymunedol	780
Fferyllfa ysbyty	307
Diwydiant fferyllol	37
Hyfforddiant ac addysg fferyllol	55
Sefydliad gofal sylfaenol	98
Arall	77

Cyhoedd	Fferylliaeth
-	780
-	307
-	37
-	55
-	98
-	77

Crefydd	Dim
544	147
194	81
27	<10
35	12
69	22
39	23

94. Mae dosbarthiad ymatebwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ddigon tebyg i ddosbarthiad poblogaeth y DU, ac nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng is-grwpiau'r cyhoedd a gweithwyr fferyllol, a'r rhai â chredo grefyddol a'r rhai heb greddo grefyddol.
95. O ran y mathau o ymatebwyr, roedd y grŵp mwyaf yn eu galw'u hunain yn aelodau o'r cyhoedd (53%) ac wedyn roedd gweithwyr fferyllol proffesiynol (40.8%). Mae nodweddion pellach a gwahaniaethau rhwng y grwpiau hyn i'w gweld yn adran olaf y dadansoddiad hwn.
96. Ymhlith gweithwyr fferyllol proffesiynol, mae'r nifer a nododd eu bod yn berchnogion fferyllfeydd yn arwyddocaol fechan (2.2%). Fodd bynnag, roedd gan y grŵp hwn ddau ddewis o ran ymateb i'r ymgynghoriad: fel unigolion neu ar ran sefydliad. Mae ymatebion gan sefydliadau wedi cael eu trin ar wahân.
97. Nododd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (57.6%) eu bod yn gweithio fel arfer mewn fferyllfa gymunedol. Nododd 22.7% o'r ymatebwyr eu bod yn gweithio mewn fferyllfa ysbyty, a'r gweddill mewn lleoliadau eraill.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

98. Roedd cwestiynau craidd yr arolwg yn canolbwyntio ar farn yr ymatebwyr ar y cynigion yn yr ymgynghoriad. Gofynnwyd am ymateb i gwestiynau'n holi am y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno â'r safonau ac am briodoldeb y canllawiau.
99. Gofynnwyd cwestiynau hefyd am effaith bosibl y newidiadau arfaethedig, a natur yr effaith, ar raddfa Likert pum pwynt, o 'cadarnhaol yn bennaf' i 'negyddol yn bennaf'. Roedd y cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar dri grŵp gwahanol: gweithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr a defnyddwyr gwasanaethau fferyllol.

Q1: A ydych chi'n cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig?

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Ydw	1520	505	952	691	733
Nac ydw	1811	1269	414	1352	38

100. Roedd 45.6% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig.
101. Mae gwahaniaethau nodedig rhwng is-grwpiau. Ymhlith y cyhoedd, roedd 28.5% yn cytuno gyda'r newidiadau, o'i gymharu â 69.7% o weithwyr fferyllol proffesiynol. Roedd 33.8% o'r ymatebwyr â chredo grefyddol yn cytuno, o'i gymharu â 95.1% o'r rhai heb greddo grefyddol.

Q2: A yw'r canllaw diwygiedig yn cwmpasu'n ddigonol yr ystod eang o sefyllfaoedd y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol fod ynddynt??

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Ydyn	1716	653	987	897	680
Nac ydyn	1335	871	357	959	77

102. Roedd 56.2% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau diwygiedig yn adlewyrchu'n ddigonol yr ystod eang o sefyllfaoedd a allai wynebu gweithwyr fferyllol proffesiynol. Ymhlith y cyhoedd, 42.8% oedd yn cytuno, tra bo 73.4% o'r gweithwyr fferyllol yn cytuno. Mae'r gwahaniaeth yn amlycach rhwng ymatebwyr â chredo grefyddol a'r rhai heb greddo grefyddol, gyda 48.3% o'r rhai â chredo grefyddol yn cytuno, ac 89.8% o'r rhai heb greddo grefyddol yn cytuno.

Q4: A fydd y dull a gynigir gennym ar gyfer y safonau a'r canllaw yn cael effaith ar weithwyr fferyllol proffesiynol?

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
--	------	---------	--------------	---------	-----

Bydd	3025	1653	1201	1885	676
Na fydd	220	44	163	129	69

Q5: A fydd yr effaith [ar weithwyr fferyllol proffesiynol] yn

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Cadarnhaol yn bennaf	906	374	501	359	501
Rhannol gadarnhaol	131	32	92	73	52
Cadarnhaol a negyddol	492	121	347	307	137
Rhannol negyddol	366	214	129	278	24
Negyddol yn bennaf	1321	955	268	986	20

103. Nododd 93.2% o'r ymatebwyr y byddai'r cynigion yn effeithio ar weithwyr fferyllol proffesiynol, heb wahaniaethau arwyddocaol rhwng is-grwpiau. Roedd gwahaniaethau amlwg, fodd bynnag, rhwng pa effaith roedd is-grwpiau yn ei nodi y byddai'r newidiadau yn ei chael. Ymhlith gweithwyr fferyllol, roedd 44.4% o'r farn y byddai'r effaith yn gadarnhaol neu'n rhannol gadarnhaol; roedd aelodau'r cyhoedd yn credu y byddai'r effaith ar weithwyr fferyllol lawer yn fwy negyddol, gyda 68.9% yn nodi eu bod o'r farn y byddai'r effaith yn negyddol neu'n rhannol negyddol. O gymharu ymatebwyr ar sail crefyddol, dywedodd 63.1% o'r rhai â chredo crefyddol eu bod yn credu y byddai'r effaith ar weithwyr fferyllol yn negyddol neu'n rhannol negyddol, a 75.3% o'r rhai heb gredu crefyddol o'r farn y byddai'r effaith yn gadarnhaol neu'n rhannol gadarnhaol.

Q6: A fydd y dull a gynigir gennym ar gyfer y safonau a'r canllaw yn cael effaith ar gyflogwyr?

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Bydd	2685	1470	1059	1673	607
Na fydd	418	108	287	235	132

Q7: A fydd yr effaith [ar gyflogwyr] yn

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Cadarnhaol yn bennaf	813	336	450	322	447
Rhannol gadarnhaol	180	35	139	108	53
Cadarnhaol a negyddol	590	171	383	372	156
Rhannol negyddol	346	219	104	266	18

Negyddol yn bennaf	1029	770	184	764	14
--------------------	------	-----	-----	-----	----

104. O ystyried yr effaith ar gyflogwyr, roedd y gwahaniaethau amlycaf rhwng safbwynt y cyhoedd a safbwynt gweithwyr fferyllol. Roedd 78.8% o'r gweithwyr fferyllol o'r farn y byddai effaith ar gyflogwyr, o'i gymharu â 93.2% o'r cyhoedd. Cafodd natur yr effaith ei hasesu'n wahanol hefyd: roedd y cyhoedd a'r rhai â chredo grefyddol gan mwyaf yn credu y byddai'r effaith yn un negyddol neu rannol negyddol (64.6% a 56.2% yn eu trefn) tra bo'r rhai heb gredu grefyddol o'r farn y byddai'r effaith yn gadarnhaol neu'n rhannol gadarnhaol (72.7%). Roedd y farn ymhlith gweithwyr fferyllol proffesiynol yn fwy cymysg. Roedd 46.7% yn credu y byddai'r effaith yn gadarnhaol neu'n rhannol gadarnhaol, ond roedd canran sylweddol (30.4%) yn credu y byddai'r effaith yn gadarnhaol a negyddol.

Q8: A fydd y dull a gynigir gennym ar gyfer y safonau a'r canllaw yn cael effaith ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol??

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Bydd	2698	1435	1115	1608	707
Na fydd	476	211	232	342	46

Q9: A fydd yr effaith [ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol] yn

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Cadarnhaol yn bennaf	1259	477	742	530	659
Rhannol gadarnhaol	146	37	102	103	30
Cadarnhaol a negyddol	528	219	262	402	35
Rhannol negyddol	260	178	61	200	<10
Negyddol yn bennaf	797	633	109	586	11

105. Roedd 85.0% o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn effeithio ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, heb lawer o wahaniaethau rhwng y pedwar is-grŵp.

106. Ymhlith y cyhoedd, roedd y farn wedi ei phegynnu o ran natur yr effaith, gyda 33.3% yn ystyried y byddai'r effaith yn gadarnhaol neu'n rhannol gadarnhaol, a 52.5% o'r farn y byddai'n negyddol neu'n rhannol negyddol.

107. Gwnaed dadansoddiad pellach o ymatebion y cyhoedd er mwyn ystyried ymhellach farn y grwpiau y byddai'r newidiadau yn cael effaith gadarnhaol arnynt, fel y'u nodwyd yn y dadansoddiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Er bod nifer yr ymatebwyr yn fechan, mae'n werth nodi bod 39.6% o'r menywod rhwng 20-39 oed, 44.1% o'r rhai ag anabledd, a 66.7% o'r ymatebwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn

ystyried y byddai effaith y newidiadau'n gadarnhaol neu'n rhannol gadarnhaol, o'i gymharu â 33.3% o'r cyhoedd yn gyffredinol.

108. Ymhlith gweithwyr fferyllol, roedd 66.1% o'r farn y byddai'r newidiadau yn effeithio'n gadarnhaol neu'n rhannol gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol. Ymhlith y rhai â chredo grefyddol, roedd 34.8% yn credu y byddai'r effaith yn gadarnhaol neu'n rhannol gadarnhaol, a 43.2% o'r farn y byddai'n negyddol neu'n rhannol negyddol. Ymhlith y rhai heb gredu grefyddol, roedd 93.2% yn credu y byddai'r effaith yn gadarnhaol neu'n rhannol gadarnhaol.

Cwestiynau monitro

109. Yn adran olaf yr arolwg, casglwyd data ar nodweddion gwarchodedig yr ymatebwyr, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Defnyddiwyd ffurflen monitro cydraddoldeb y CFFC i gasglu'r wybodaeth hon, gan ddefnyddio categorïau sydd wedi eu halinio gyda'r cyfrifiad, neu arfer da arall (wrth fonitro cyfeiriadedd rhywiol, er enghraifft). Gofynnwyd y cwestiynau hyn er mwyn helpu'r CFFC i ddeall proffil yr ymatebwyr, i roi sicrwydd bod trawstoriad eang o'r boblogaeth wedi ei gynnwys yn yr ymgynghoriad. Mae'r ymatebion ynglŷn â chrefydd hefyd wedi cael eu defnyddio i weld y gwahaniaethau mewn ymatebion rhwng ymatebwyr â chredo grefyddol ac ymatebwyr heb gredo grefyddol.

Beth yw eich rhyw?

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Benyw	1484	634	762	1013	329
Gwryw	1625	981	560	999	429
Arall	30	17	10	11	<10

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Deurywiol	34	18	<10	11	23
Dyn hoyw	55	22	28	22	30
Menyw hoyw/ lesbiad	16	<10	<10	<10	10
Heterorywiol/syth	2532	1247	1153	1756	643
Arall	26	20	<10	16	<10
Gwell gennyf beidio â dweud	425	277	120	184	45

Beth yw eich grŵp oedran?

	Pawb	Cyhoedd	Fferylliaeth	Crefydd	Dim
Dan 20 oed	33	11	<10	25	<10
20 – 29 oed	382	99	211	249	86
30 – 39 oed	575	186	365	360	148
40 – 49 oed	604	249	341	363	180
50 – 59 oed	654	348	281	430	151
60 + oed	845	700	126	586	192

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn anabl?

	Pawb
Ydw	162
Nac ydw	2751
Gwell gennyf beidio â dweud	198

Cyhoedd	Fferylliaeth
124	29
1353	1244
132	52

Crefydd	Dim
92	54
1841	688
79	20

Beth yw eich grŵp ethnig?

	Pawb
Gwyn	2382
Du neu Ddu Prydeinig	103
Cymysg	68
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	254
Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig	17
Arab	18
Arall	16
Gwell gennyf beidio â dweud	246

Cyhoedd	Fferylliaeth
1390	892
15	74
24	35
19	203
<10	11
<10	15
<10	<10
145	83

Crefydd	Dim
1518	700
101	<10
54	10
223	17
12	<10
16	<10
14	<10
77	28

Beth yw eich crefydd?

	Pawb
Bwdhydd	19
Cristion	1737
Hindŵ	70
Iddew	18
Mwslim	151
Sïc	22
Arall	32
Dim	772
Gwell gennyf beidio â dweud	318

Cyhoedd	Fferylliaeth
<10	10
980	664
<10	67
<10	15
<10	128
<10	20
<10	19
451	292
178	109

Crefydd	Dim
19	-
1737	-
70	-
18	-
151	-
22	-
32	-
-	772
-	-

110. O ran eu nodweddion gwarchoddedig, nid oedd llawer o wahaniaethau ym mhroffiliau'r rhai â chredo grefyddol a'r rhai heb greddo grefyddol, heblaw am y credoau crefyddol eu hunain wrth gwrs.
111. Roedd proffil nodweddion gwarchoddedig y cyhoedd a'r gweithwyr fferyllol a atebodd y cwestiynau hyn hefyd yn debyg yn gyffredinol, gyda rhai eithriadau. Roedd y cyhoedd yn fwy tebygol o fod yn ddynion (60.1% mewn cyferbyniad â 42.0%), yn fwy tebygol o fod yn wyn (86.6% mewn cyferbyniad â 67.5%) ac yn fwy tebygol o fod yn Gristnogion (59.9% mewn cyferbyniad â 50.2%).
112. Y gwahaniaeth amlycaf rhwng y ddau is-grŵp hyn, fodd bynnag, oedd oed yr ymatebwyr. Fel gyda'r nodweddion eraill, roedd proffil oedran y gweithwyr fferyllol a ymatebodd yn debyg, yn gyffredinol, i broffil oedran aelodau cofrestr y CFfC. Roedd proffil oedran y cyhoedd yn tueddu'n gryf tuag at grwpiau oedran hŷn, gyda 21.8% o'r ymatebwyr yn 50-59 oed, a 43.9% yn 60 oed neu'n hŷn.

C: Sefydliadau

Bu'r sefydliadau canlynol yn rhan o'r ymgynghoriad drwy gyfarfodydd un wrth un, mynychu digwyddiadau, rhoi tystiolaeth i'n hasesiad effaith ar gydraddoldeb a chyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad.

- Acheason Chemist
- Acorn Chemist
- Affinity - Gospel Churches in Partnership
- Anscombe Bioethics Centre
- Association of Pharmacy Technicians United Kingdom
- Association of Independent Multiples Pharmacies Committee
- Badham Pharmacy Ltd
- Bairds Pharmacy
- Bedfordshire Humanists
- BLM
- Board of Deputies of British Jews
- Boots Pharmacists' Association
- Boots Pharmacy
- British Association of Gender Identity Specialists
- British Humanist Association
- British Pharmaceutical Students' Association
- British Pregnancy Advisory Service
- Buttercups Training Ltd
- Carters Chemist
- Catholic Bishops Conference of England and Wales
- Catholic Medical Association
- Catholic Nurses Association
- Catholic Parliamentary Office
- Catholic Union of Great Britain
- Celesio UK
- Centre for Pharmacy Postgraduate Education, University of Manchester

- Charles Russell LLP
- Chief Pharmaceutical Officer, Scotland
- Christian Action, Research and Education
- Christian Institute
- Christian Legal Centre
- Christian Medical Fellowship
- Christian Voice
- Christians in Pharmacy
- Church of England
- CitizenGO
- Community Pharmacy Scotland
- Croydon Local Pharmaceutical Committee
- Cyngor Bwdhaidd Cymru
- Cyngor Eglwys Rydd Cymru
- D K Wood Ltd
- Dalton Pharmacy
- Evangelical Alliance
- Faculty of Sexual and Reproductive Health
- Fairmans Pharmacy
- Family Education Trust
- Family Planning Association
- Fferyllfa Gymunedol Cymru
- Friends, Families and Travellers
- General Medical Council
- GIRES
- Guild of Healthcare Pharmacists
- Hampshire and Isle of White Local Pharmaceutical Committee
- Healthwatch Islington
- Healthwatch Lewisham
- Healthwatch Salford
- Hindu Council UK

- Housley Pharmacy
- Jewish Medical Association
- Kamsons Pharmacy
- Lawyers Christian Fellowship
- LGBT Foundation
- Life
- Lindsay & Gilmour
- Mencap
- Midcounties Co-operative
- Mind
- Morrison's Pharmacy
- Muslim Council of Britain
- Muslim Pharmacists Association
- National Dignity Council
- National LGB&T Partnership
- National Pharmacy Association
- National Secular Society
- Network for Buddhist Organisations
- NHS Ayrshire and Arran
- NHS Education for Scotland
- NHS England Health and Justice Commissioning
- NHS Lanarkshire
- NHS Wandsworth Clinical Commission Group
- Norchem Healthcare
- PCT Healthcare Ltd
- Peverell Community Church
- Pharmaceutical Services Negotiating Committee
- Pharmacists Defence Association
- Pharmacy Law and Ethics Association
- Pharmacy Schools Council

- Pharmacy Voice
- Preston College
- Professional Standards Authority
- ProPharmace
- Race Equality Foundation
- Redbridge Pensioners Forum
- Right To Life
- Rowlands Pharmacy
- Royal Pharmaceutical Society
- School of Pharmacy, Keele University
- Scottish Catholic Medical Association
- Scottish Council of Human Bioethics
- Scottish Secular Society
- Secular Medical Forum
- Secure Environment Pharmacists Group
- Society for the Protection of Unborn Children
- South Staffordshire Local Pharmaceutical Committee
- Spring Road Evangelical Church
- Sykes Chemists Ltd
- Terrence Higgins Trust
- The Baptist Church, Kilmington
- The Christian Institute
- The International Vegan Rights Alliance
- The National LGB&T Partnership
- The Vegan Society
- Twickenham Christian Concern
- University of Bradford
- Uttoxeter Health Stores Ltd
- Vyas Ltd
- Well